11. Y Cwricwlwm

Mae'r bennod hon yn darparu trosolwg o'r cwricwlwm a chyfrifoldebau cysylltiedig y corff llywodraethu.

Trosolwg

1. Nid casgliad o bynciau neu brofiadau yn unig yw'r cwricwlwm ysgol. Mewn perthynas â'r materion neu'r gweithgareddau mae'n ymdrin â nhw, mae'n ofynnol iddo fod yn gytbwys ac yn eang ac mae'n rhaid iddo hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion yn yr ysgol ac sy'n perthyn i gymdeithas a pharatoi disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd fel oedolion. Rhaid i bob ysgol a gynhelir a phob ysgol feithrin a gynhelir ddarparu'r cwricwlwm sylfaenol sy'n cynnwys y canlynol:

- pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, sy'n berthnasol o 7-16 oed o ddechrau blwyddyn ysgol 2011/12, Meysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen a fydd yn berthnasol i bob plentyn 3-7 oed;
- addysg grefyddol i bob disgybl sydd ar gofrestr yr ysgol hyd at 19 oed;
- addoli ar y cyd ar gyfer disgyblion hyd at 19 oed;
- addysg rhyw yn achos ysgol arbennig. Mae hyn yn berthnasol i ddisgyblion ysgolion uwchradd. Rhaid i ysgolion cynradd fod â pholisi addysg rhyw;
- addysg bersonol a chymdeithasol;
- Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith. Mae hwn yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ac yn orfodol i bob disgybl cofrestredig 11-16 oed. Hefyd, mae'n rhan o ofynion Craidd Dysgu'r Llwybrau Dysgu 14-19.

2. Rhennir y cyfrifoldeb am y cwricwlwm rhwng y pennaeth, y corff llywodraethu, yr ALl a Llywodraeth y Cynulliad.

3. Gosodwyd nodweddion sylfaenol y cwricwlwm ysgol yn Neddf Diwygio Addysg 1988. Sefydlodd hon gwricwlwm sylfaenol – y cwricwlwm cenedlaethol ynghyd ag addysg grefyddol ac, mewn ysgolion uwchradd, addysg rhyw – sy'n sicrhau bod pob disgybl yn cael addysg eang a chytbwys.

4. Mae hawl gan bob disgybl i gael y cwricwlwm ysgol, gyda phob dim wedi'i gynnwys.

Addysg y Blynyddoedd Cynnar

5. Mae hawl gan bob plentyn i gael lle Cyfnod Sylfaen am ddim (rhan-amser) o'r tymor ar ôl iddo droi'n dair; mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (adran 118) yn rhoi dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol i sicrhau darpariaeth o'r fath. Mae'r cyfrifoldeb am gynllunio a rheoli'r ddarpariaeth yn nwylo'r Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, ac mae Adran 119 o Ddeddf Safonau

a Fframwaith Ysgolion yn mynnu bod pob awdurdod addysg yn sefydlu'r Bartneriaeth hon.

6. Wrth benderfynu sut i fodloni ei ddyletswydd gall yr Awdurdod Lleol (trwy ei Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) ddewis ariannu lleoliadau nas cynhelir fel darparwyr Cyfnod Sylfaen. Rhaid i ddarparwyr o'r fath gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a chael eu harolygu ganddi. Mae pob darparwr addysg y Cyfnod Sylfaen, boed yn lleoliadau wedi'u hariannu nas cynhelir neu a gynhelir, yn cael eu harolygu gan Estyn – Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

7. O fis Medi 2008 darperir addysg feithrin/blynyddoedd cynnar i blant 3 i 4 oed trwy'r Cyfnod Sylfaen - Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru.

Y Cyfnod Sylfaen

8. O fis Medi 2008 cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen i blant 3 i 7 oed, ar raglen dreigl, i ysgolion (a lleoliadau nas cynhelir) yng Nghymru (gweler isod). O ddechrau blwyddyn ysgol 2011/12 bydd y Cyfnod Sylfaen yn disodli rhaglenni astudio Cyfnod Allweddol 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol.

9. *Bydd gan Feithrinfeydd nas cynhelir eu trefniadau rheoli eu hunain:*

O 1 Awst yn y blynyddoedd	**Y Cyfnod Sylfaen yn statudol i blant:**	**Cyfnod Allweddol 1 yn parhau'n statudol i blant:**
2008	3 i 4 oed	4 i 7 oed
2009	3 i 5 oed	5 i 7 oed
2010	3 i 6 oed	6 i 7 oed
2011	3 i 7 oed	Rhaglen dreigl wedi'i chwblhau

Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen

10. Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys y saith Maes Dysgu canlynol:

- 'Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol';
- 'Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu';
- 'Datblygiad Mathemategol';
- 'Datblygu'r Gymraeg;
- 'Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd';
- 'Datblygiad Corfforol'; a
- 'Datblygiad Creadigol'.

Ar gyfer pob Maes Dysgu mae'r rhaglen addysgol yn amlinellu beth ddylai plant gael eu haddysgu ac mae'r deilliannau'n amlinellu safonau disgwyliedig perfformiad y plant.

Asesu yn y Cyfnod Sylfaen

11. Mae Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen wedi'u datblygu i gynorthwyo'r asesiadau statudol diwedd cyfnod sy'n ofynnol i athrawon eu cynnal. Mae chwech o ddeilliannau i bob Maes Dysgu ac er gwybodaeth mae'r deilliannau canlynol yn croesgyfeirio'n fras i ddisgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol cyfredol:

- Deilliant 4 y Cyfnod Sylfaen yn cysylltu â Lefel 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol;
- Deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen yn cysylltu â Lefel 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol;
- Deilliant 6 y Cyfnod Sylfaen yn cysylltu â Lefel 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol.

12. Bydd yna ddau asesiad o hyd yn y Cyfnod Sylfaen:

- Cynhelir asesiad ar ôl cychwyn (neu asesiad llinell sylfaen) yn iaith y lleoliad cyn pen chwe wythnos ar ôl cychwyn y Cyfnod Sylfaen (gallai'r plentyn fod yn 3, 4 neu 5 oed). Mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir, cyflwynir yr asesiadau ar ôl cycyhwyn o fis Medi 2011, ac fe'u cyflwynir o fis Medi 2012 mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir;
- Caiff asesiad athro statudol diwedd cyfnod (blwyddyn 2) ei gyflwyno yn haf 2012.

13. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, bydd athrawon yn defnyddio'r Deilliannau Cyfnod Sylfaen i asesu pob plentyn trwy asesiad athro.

Y Cyfnod Sylfaen ac Addysg Grefyddol

14. Mae'r *fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* yn darparu canllawiau i CYSAG (Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol) ar y cwricwlwm addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen.

15. Mae Addysg Grefyddol yn bwnc statudol a rhaid ei ddarparu ar gyfer pob plentyn cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir, gan gynnwys y rhai mewn dosbarthiadau derbyn ond heb gynnwys plant mewn ysgolion meithrin a dosbarthiadau meithrin fel yr amlinellir yng Nghylchlythyr 10/94 a deddfwriaeth ddilynol. Mae'r Fframwaith Addysg Grefyddol yn darparu canllawiau ar gyfer gweithredu hawl anstatudol i blant mewn lleoliadau meithrin a'r sail ar gyfer cynllunio addysg grefyddol statudol i blant yng ngweddill y Cyfnod Sylfaen.

Trosolwg y Cwricwlwm Ysgol

16. Nid casgliad o bynciau neu brofiadau yn unig yw'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru. Mewn perthynas â'r materion neu'r gweithgareddau mae'n ymdrin â nhw, mae'n ofynnol iddo fod yn gytbwys ac yn eang ac mae'n rhaid iddo hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion yn yr ysgol ac sy'n perthyn i gymdeithas a pharatoi disgyblion ar gyfer y cyfleoedd, y cyfrifoldebau a'r profiadau bywyd fel oedolion.

17. Mae'n rhaid i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru ddarparu'r cwricwlwm sylfaenol sy'n cynnwys y canlynol:

- y Cyfnod Sylfaen, sy'n cael ei gyflwyno i blant 3 i 7 oed (gan ddisodli Cyfnod Allweddol 1 o'r cwricwlwm cenedlaethol yn llwyr i bob disgybl 6 i 7 oed o ddechrau blwyddyn ysgol 2011/12.
- pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, i ddysgwyr 7-16 oed o 2011/12;
- addysg grefyddol i bob disgybl cofrestredig yn yr ysgol; disgyblion hyd at 19 oed;
- addoli ar y cyd i ddisgyblion hyd at 19 oed;
- addysg rhyw; yn achos ysgol arbennig mae hyn yn berthnasol i ddisgyblion ysgolion uwchradd. Mae'n rhaid i ysgolion cynradd fod â pholisi addysg rhyw cyfredol;
- addysg bersonol a chymdeithasol i bob disgybl cofrestredig o oedran ysgol gorfodol;
- gyrfaoedd a byd gwaith i bob disgybl cofrestredig 11 i 16 oed. Mae hefyd yn rhan o ofynion Craidd Dysgu'r Llwybrau Dysgu 14-19 oed.

18. Pennaeth yr ysgol, y corff llywodraethu, yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cwricwlwm yn bodloni'r meini prawf ym mharagraff 16.

19. Mae gan bob disgybl hawl i dderbyn y cwricwlwm ysgol, gan gynnwys yr holl agweddau a restrir uchod.

Y Cwricwlwm Ysgol ar gyfer Cymru

20. Mae'r cwricwlwm ysgol sy'n cael ei weithredu ers mis Medi 2008 yn cynnwys:

- un fframwaith cydlynol ar gyfer y cwricwlwm, asesu a chymwysterau'r rhai 3-19 oed, a fydd yn cynorthwyo ysgolion i godi safonau cyflawniad ac ehangu cyfleoedd addysgol;
- cyfres o Orchmynion Pwnc sy'n hylaw ac yn adlewyrchu nodweddion y cwricwlwm cyfan a phob cyfnod allweddol;
- fframwaith anstatudol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol;
- fframwaith anstatudol ar gyfer gyrfaoedd a'r byd gwaith;

- fframwaith sgiliau anstatudol;
- fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol;
- y Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru.

21. Mae'r fframweithiau a'r Gorchmynion hyn yn cynorthwyo'r amcan o sicrhau y bydd y cwricwlwm ysgol, trefniadau asesu a chymwysterau yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio mwy ar y dysgwr ac ar sgiliau ac sy'n adeiladu ar y Cyfnod Sylfaen ac yn cysylltu'n effeithiol â'r rhaglen Llwybrau Dysgu 14–19.

22. Penderfynwyd canolbwyntio ar sgiliau, yn enwedig cyfathrebu, TGCh, rhif a datblygu meddwl (gan gynnwys datrys problemau) oherwydd:

- y dymuniad cryf i ddefnyddio'r dull hwn a'r gefnogaeth sydd iddo o fewn y proffesiwn; a
- dymuniad cyflogwyr i wella'r sail sgiliau yn y meysydd a nodwyd.

23. Dylai'r Gorchmynion Pwnc diwygiedig a'r fframweithiau ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol a gyrfaoedd a byd gwaith gynorthwyo i gyflawni'r amcanion ehangach, gan gynnwys hyrwyddo:

- gwell pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3;
- addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang;
- addysg ar gyfer byd gwaith ac entrepreneuriaeth;
- bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, hunan barch a lles plant a phobl ifanc.

24. Wrth ddiwygio'r cwricwlwm, manteisiwyd ar gyfleoedd i ddiweddaru a lleihau'r cynnwys i sicrhau ei fod yn berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain, gan ystyried datblygiad personol a lles dysgwyr, pa mor barod ydynt ar gyfer dinasyddiaeth, bywyd cymunedol a chyflogaeth yn y Gymru ddwyieithog.

25. Mae'r diwygiadau yn sicrhau ei fod yn fwy hylaw a hyblyg o ran darpariaeth ar gyfer athrawon a bydd yn annog arloesedd, creadigrwydd ac ymagwedd o amrywiaeth tuag at ddysgu ac addysgu. Bydd disgyblion yn cymryd mwy o ran yn y broses ddysgu a datblygu eu sgiliau.

Cyfrifoldebau Llywodraethwyr - Asesu

26. Rhaid i bob ysgol adrodd ar ganlyniadau asesu diwedd cyfnod y cwricwlwm cenedlaethol y disgyblion i'w rhieni, a chyhoeddi canlyniadau wedi'u cyfuno ar gyfer yr ysgol yn ei phrosbectws ac yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cyhoeddi dadansoddiadau cenedlaethol o'r canlyniadau (gweler Pennod 7, Darparu Gwybodaeth).

27. Rhaid i ysgolion hefyd ddarparu adroddiad ysgrifenedig i rieni/gofalwyr ar ddeilliant yr asesiad llinell sylfaen, a chyfle i drafod ei gynnwys, yn ystod y tymor y cwblhawyd yr asesiad.

28. Mae mwy o wybodaeth am asesu yn ystod Cyfnodau Allweddol 1, 2 neu 3 ar gael yn y llyfryn 'Trefniadau Asesu Statudol', a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth y Cynulliad bob hydref. Hefyd, mae crynodeb ar gael yn y llyfrynnau 'Sut mae'ch plentyn yn dod ymlaen yn yr Ysgol Gynradd?' a 'Sut mae'ch plentyn yn dod ymlaen yn yr Ysgol Uwchradd?' a gyhoeddir gan Lywodraeth y Cynulliad ac a anfonir i ysgolion bob Gwanwyn.

29. Mae'r corff llywodraethu yn rhannu cyfrifoldeb gyda'r pennaeth a'r ALl am sicrhau bod y cwricwlwm a'r trefniadau asesu priodol yn cael eu cyflawni.

30. Mae cyrff llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod y pennaeth yn anfon canlyniadau asesiadau llinell sylfaen a diwedd cyfnod/cyfnod allweddol yr athro i'r ALl.

Rhagfarn Wleidyddol: dysgu gwleidyddiaeth mewn ysgolion

31. Ni ddylai corff llywodraethu, y pennaeth na'r ALl adael i unrhyw athro hyrwyddo safbwyntiau gwleidyddol unochrog wrth addysgu. Rhaid i athrawon gyflwyno gwahanol safbwyntiau mewn ffordd gytbwys wrth ymdrin â materion gwleidyddol.

32. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ysgolion, penaethiaid, staff ysgol ac ALlau gydymffurfio â'r gyfraith, sy'n cynnwys atal disgyblion iau (disgyblion dan 12 oed) rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol unochrog yn yr ysgol. Mae hefyd yn gwahardd hyrwyddo safbwyntiau gwleidyddol unochrog wrth addysgu unrhyw bwnc i unrhyw ddisgybl. Lle cynhelir gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, nid yw disgyblion iau yn cael cymryd rhan os ydynt wedi'u trefnu gan aelod o staff ysgol neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ran yr ysgol.

33. Dylent hefyd gymryd camau i sicrhau bod materion gwleidyddol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd gytbwys i ddisgyblion bob amser. Mae hyn yn cynnwys achosion lle mae materion gwleidyddol yn cael eu cyflwyno i ddisgyblion yn yr ysgol neu pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgwricwlaidd a ddarperir neu a drefnir yn yr ysgol neu ar ran yr ysgol.

34. Y Cwricwlwm Ysgol ar gyfer Cymru

Y Cyfnod Sylfaen

35. Mae'r Meysydd Dysgu sy'n cynnwys y cwricwlwm ar gyfer plant 3 i 7 oed wedi'u cyflwyno yn y *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru.*

Pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

36. Dyma 12 pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol: Cymraeg, Saesneg, Ieithoedd Tramor Modern, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg

Gwybodaeth a Chyfathrebu, Hanes, Daearyddiaeth, Celf a Dylunio, Cerddoriaeth ac Addysg Gorfforol.

37. Mae'r Gorchmynion Pwnc yn ymdrin â'r oedrannau canlynol:

- 7 i 16 oed (Cyfnodau Allweddol 2 i 4) mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth ac Addysg Gorfforol; a
- 7 i 14 oed (Cyfnodau Allweddol 2 a 3) – yng ngweddill y pynciau.

38. Mae'r cwricwlwm lleol ar gyfer dysgwyr 14-19 oed hefyd wedi'i ddiffinio gan Lwybrau Dysgu a dewis cymwysterau.

Y Fframwaith Sgiliau Anstatudol:

39. Y fframwaith sgiliau anstatudol sy'n sail i'r cwricwlwm ysgol a'i nod yw:

- cynorthwyo i roi'r sgiliau i bobl ifanc sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial yn y gwaith; ac
- amlinellu cynnydd o ran datblygu meddwl, cyfathrebu, rhif a TGCh, y meysydd a nodir amlaf fel rhai angenrheidiol gan athrawon, swyddogion ALl a chyflogwyr.

Gofynion cwricwlwm statudol eraill

Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)

40. Mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol i bob disgybl cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir.

41. Ar gyfer plant 3 i 7 oed, mae ABCh yn cael ei chyflwyno drwy Faes Dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol yn y *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru.*

42. *Y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer Dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru* yw'r ddogfen allweddol y dylai darparwyr dysgu ei defnyddio i adolygu a datblygu'r ddarpariaeth ABCh er mwyn sicrhau eu bod yn cynllunio ac yn darparu rhaglen eang, gytbwys o ABCh i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr 7 i 19 oed.

43. Datblygir y fframwaith ABCh gan elfennau'r Craidd Dysgu 14-19 sy'n berthnasol i ABCh.

44. Mae ABCh yn cynnwys popeth y mae ysgol yn ei wneud i gefnogi a hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol a lles ei dysgwyr. Mae'n galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu ymdeimlad o hunan barch a rhyngweithio'n effeithiol gydag eraill. Mae dysgwyr yn dysgu i fod yn fwy gwybodus, hyderus a medrus er mwyn cymryd rhan yn egniol ac yn gyfrifol mewn cymdeithas a gwella dysgu, cymhelliant a chyflawniad.

Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith

45. Mae Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol i bob disgybl cofrestredig 11 i 16 oed mewn ysgolion a gynhelir. Mae'n rhan o ofynion Craidd Dysgu'r Llwybrau Dysgu 14-19 oed hefyd.

46. *Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith: Fframwaith i Bobl Ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru* yw'r ddogfen allweddol y dylai darparwyr dysgu ei defnyddio i adolygu a datblygu darpariaeth Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith i'r rhai 11 i 19 oed.

47. Mae canllawiau wedi'u llunio i roi amrywiaeth o ddeunyddiau allweddol i gydlynwyr i'w cynorthwyo i reoli'r maes hwn, ac maent yn ategu'r fframwaith.

48. Wrth addysgu addysg bersonol a chymdeithasol a gyrfaoedd a'r byd gwaith, dylai cyrff llywodraethu ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru – gweler Adran100(8) o Ddeddf Addysg 2002.

Addysg Rhyw

49. Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir lunio, a diweddaru, datganiad ysgrifenedig ar wahân o'u polisi ar ddarparu addysg rhyw.

50. Mae hefyd yn ofynnol i ysgolion sicrhau bod copïau o'r polisi ar gael i rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol. Mae'n rhaid iddynt hefyd ddarparu copi o'r datganiad am ddim i unrhyw riant sy'n gofyn.

51. Mae'n rhaid i ysgolion cynradd ddarparu addysg rhyw yn unol â gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru, er enghraifft wrth addysgu gwyddoniaeth. Nid oes rhaid i ysgolion cynradd ddarparu addysg rhyw fel rhan o'r cwricwlwm sylfaenol. Fodd bynnag, gall ysgolion cynradd ddarparu addysg rhyw, ond ysgolion unigol sy'n penderfynu hynny. Cyfrifoldeb cyrff llywodraethu ysgolion unigol, mewn ymgynghoriad â rhieni/gofalwyr, yw penderfynu sut i ymdrin ag addysg rhyw, yn unol ag anghenion dysgwyr a natur ac ethos yr ysgol.

52. Rhaid i bob ysgol uwchradd a gynhelir ddarparu addysg rhyw ar gyfer pob disgybl cofrestredig fel rhan o gwricwlwm sylfaenol yr ysgol.

53. Gall ysgolion arbennig a gynhelir ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ddarparu addysg rhyw ar gyfer dysgwyr oedran cynradd. Mae'n rhaid iddynt ddarparu addysg rhyw ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd sy'n gofrestredig yn yr ysgol.

54. Rhaid i'r ALl, y corff llywodraethu a'r pennaeth sicrhau hefyd fod unrhyw addysg rhyw yn cael ei darparu mewn ffordd sy'n annog disgyblion i ystyried moesau a gwerth bywyd teuluol.

55. Mae Adran 403 o Ddeddf Addysg 1996 yn rhoi dyletswydd ar y corff llywodraethu a phennaeth yr ysgol a gynhelir i gymryd camau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau, os yw addysg rhyw yn cael ei darparu, ei bod yn cael ei chyflwyno mewn modd sy'n annog disgyblion i ystyried materion moesol a gwerth bywyd teuluol.

56. Mae Adran 403(1A) o Ddeddf Addysg 1996 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau wedi'u llunio i sicrhau, os yw addysg rhyw yn cael ei darparu, bod disgyblion yn dysgu am natur priodas a'i phwysigrwydd ar gyfer bywyd teuluol a magu plant, a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag deunyddiau ac addysgu sy'n amhriodol gan ystyried oedran a chefndir crefyddol a diwylliannol y disgyblion dan sylw.

57. Mae'n rhaid i'r polisi gynnwys datganiad am hawl rhieni i eithrio eu plant o addysg rhyw. Mae'n rhaid i ysgolion gadw cofnod ysgrifenedig o'u penderfyniadau.

58. Trwy rinwedd adran 405 o Ddeddf Addysg 1996 *os yw rhiant unrhyw ddisgybl sy'n mynychu ysgol a gynhelir yn gwneud cais iddo ef neu hi gael ei esgusodi/hesgusodi'n gyfan gwbl neu'n rhannol o dderbyn addysg rhyw yn yr ysgol, bydd y disgybl, ac eithrio pan fo'r addysg wedi'i chynnwys yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, yn cael ei esgusodi hyd nes y tynnir y cais yn ôl*.

59. Mae canllawiau ar addysg rhyw ar gael yn *Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion*; Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 019/2010 a gyhoeddwyd mis Medi 2010.

60. Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu ac athrawon ystyried canllawiau o'r fath.

Addysg Grefyddol

60. Mae'n rhaid i bob ysgol a gynhelir ddarparu addysg grefyddol i bob disgybl cofrestredig (ac eithrio'r rhai sydd wedi'u tynnu allan gan eu rhieni). Mae ysgolion yn dilyn maes llafur cytûn ar gyfer y maes, sy'n cael ei lunio gan y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) lleol, cynhadledd leol ar gyfer athrawon, eglwysi a grwpiau ffydd lleol a'r ALl. Mae'r corff llywodraethu yn rhannu cyfrifoldeb gyda'r ALl a'r pennaeth am sicrhau bod gofynion addysg grefyddol yn cael eu bodloni.

61. Rhaid i'r holl feysydd llafur cytûn adlewyrchu'r ffaith bod traddodiadau crefyddol ym Mhrydain yn Gristnogol yn bennaf, tra'n ystyried athrawiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill sy'n cael eu cynrychioli ym Mhrydain.

62. Bydd union natur addysg grefyddol mewn ysgol sefydledig neu wirfoddol yn dibynnu ar gymeriad crefyddol yr ysgol a bydd yn unol â dogfen ymddiriedolaeth yr ysgol neu, os nad oes darpariaeth yn y ddogfen ymddiriedolaeth, yn unol â'r uchod.

Addoli ar y Cyd

63. Rhaid i bob ysgol a gynhelir gynnal gweithred addoli ar y cyd ddyddiol sy'n Gristnogol yn fras ar gyfer yr holl ddisgyblion ar ei chofrestr, gan gynnwys y rhai dros 16 (adran 70 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998).

64. Gall rhiant neu warcheidwad dynnu ei blentyn (blant) allan o addoli ar y cyd (adran 71 o'r Ddeddf).

65. Roedd Adran 55 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn diwygio adran 71 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i ganiatáu i ddisgyblion chweched dosbarth mewn ysgolion cymunedol, cymunedol arbennig, gwirfoddol, sefydledig a sefydledig arbennig a gynhelir eithrio eu hunain o addoli ar y cyd. Mae'r ddarpariaeth hon mewn grym yng Nghymru ers 9 Chwefror 2009. Cyhoeddodd Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol ar Addysg Grefyddol Cymru ganllawiau i ysgolion ar y newid hwn yn y gyfraith.

66. Mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol, bydd yr addoli ar y cyd yn unol â dogfen ymddiriedolaeth yr ysgol. Os nad oes darpariaeth yn y ddogfen ymddiriedolaeth, dylai'r addoli fod yn unol â chredoau'r grefydd neu'r enwad a benodwyd ar gyfer yr ysgol (adran 69 o'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion).

67. Darperir addoli ar y cyd fel arfer mewn gwasanaeth dyddiol. Mae'r corff llywodraethu yn rhannu cyfrifoldeb gyda'r pennaeth a'r ALl am sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu bodloni. Y pennaeth sy'n gyfrifol am drefnu addoli ar y cyd ar ôl ymgynghori â'r corff llywodraethu.

68. Gall fod yna achosion eithriadol, yn sgil cefndir teuluol rhai disgyblion, pan fydd y pennaeth a'r corff llywodraethu yn teimlo nad yw addoliad Cristnogol cyffredinol yn addas. Dan yr amgylchiadau hyn gall y pennaeth wneud cais i'r CYSAG lleol i godi neu addasu'r gofynion. Cyn gwneud hynny, cynghorir y corff llywodraethu i ymgynghori â'r rhieni.

Amgylchiadau lle nad yw'r Cwricwlwm yn berthnasol o bosibl

69. Mae'r Cwricwlwm yn cynnig cyfle eang i athrawon ymdrin ag anghenion pob plentyn. Dim ond dan amgylchiadau prin y bydd angen datgymhwyso disgybl o'r cwricwlwm.

70. Mae dogfennau'r cwricwlwm yn cynnwys datganiad ar gyfrifoldebau'r ysgol o ran deddfwriaeth cyfle cyfartal a hawliau dysgwyr. Mae athrawon yn arfer doethineb wrth ddewis cynnwys cwricwlwm priodol a gall fod angen gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer rhai dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig.

71. Os oes angen datgymhwyso disgyblion gellir gwneud hyn trwy:

- ddatganiad o anghenion addysgol arbennig a all ddweud na ddylai rhywfaint o'r cwricwlwm neu'r cwricwlwm cyfan fod yn berthnasol i ddisgybl unigol neu y dylid ei newid. Os oes gan blentyn ddatganiad o'r fath, bydd gan yr ysgol gopi ac fel arfer bydd wedi cynorthwyo i'w lunio. Dylid datgymhwyso disgybl mewn achosion eithriadol yn unig gan fod yna ddigon o hyblygrwydd yn y cwricwlwm i ddiwallu'r rhan fwyaf o anghenion (adran 113 o Ddeddf Addysg 2002);
- gall y pennaeth hefyd eithrio disgyblion unigol dros dro o'r cwricwlwm. Gall penaethiaid wneud dau fath o gyfarwyddyd, gan godi neu addasu rhai neu'r holl ofynion am hyd at chwe mis ar y tro (adran 114 o Ddeddf Addysg 2002):

1. cyfarwyddiadau cyffredinol i ddisgyblion â phroblemau tymor byr y disgwylir iddynt gymryd rhan lawn ym mhwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol eto cyn pen chwe mis; er enghraifft disgyblion sy'n cyrraedd o system addysg wahanol sy'n golygu bod angen addasu'r cwricwlwm; disgyblion sydd wedi treulio cyfnodau mewn ysbyty; disgyblion sydd â phroblemau emosiynol difrifol dros dro;
2. 'cyfarwyddiadau' arbennig i ddisgyblion y cred y pennaeth ddylai gael eu hasesu neu eu hailasesu am ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac sydd angen cael un neu fwy o ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol wedi'u codi yn y cyfamser. Mae'n rhaid i unrhyw gyfarwyddyd nodi pryd y bydd y trefniadau eithriadol yn cychwyn ac yn gorffen, neu'r ffactorau a fydd yn penderfynu pryd y byddant yn dod i ben. Ni all cyfarwyddyd cychwynnol bara mwy na chwe mis calendr.

72. Fodd bynnag, disgwylir i benaethiaid ddefnyddio eu pwerau cyfarwyddyd mewn ffordd sensitif a chynnil gan y dylai pob disgybl gael y cyfle i fanteisio ar yr ystod lawn o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol.

73. Rhaid i'r pennaeth anfon copïau o unrhyw gyfarwyddyd i'r corff llywodraethu, yr ALl ac at o leiaf un o rieni'r disgybl. Os nad yw'r rhieni'n fodlon, gallant gyflwyno apêl i'r bwrdd llywodraethu. Gall y corff llywodraethu gadarnhau camau'r pennaeth neu ddweud wrth y pennaeth am newid y penderfyniad. Os yw'r rhieni o'r farn bod y corff llywodraethu wedi gweithredu'n afresymol wrth benderfynu ar yr apêl, gallant ddefnyddio gweithdrefnau'r ALl a gymeradwywyd gan Lywodraeth y Cynulliad, ar gyfer ymdrin â chwynion am gamau gweithredu cyrff llywodraethu ac ALlau mewn perthynas â'r cwricwlwm.

74. Mae mwy o wybodaeth am y cwricwlwm mewn perthynas â disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gael ym Mhennod 13, sef Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Cwynion am y cwricwlwm

75. Mae'n rhaid i bob ALl sefydlu gweithdrefnau, wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth y Cynulliad, ar gyfer ymdrin â chwynion am gamau gweithredu cyrff llywodraethu ac ALlau ar y cwricwlwm (adran 409 o Ddeddf Addysg 1996). Yn achos cwynion yn erbyn cyrff llywodraethu nad ydynt yn ymwneud â'r cwricwlwm, cam ffurfiol cyntaf y weithdrefn yw i'r corff llywodraethu ystyried y gŵyn (adran 29 o Ddeddf Addysg 2002). Os yw'r sawl sy'n cwyno yn dal yn anfodlon wedi hyn gall ef neu hi gyflwyno'r gŵyn i'r ALl. Gall cwynion sy'n ymwneud â phwerau neu swyddogaethau'r ALl yn unig gael eu hystyried gan yr ALl.

Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

76. Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am lunio un cwricwlwm lleol neu fwy ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4. Bydd Gweinidogion Cymru yn llunio'r cwricwlwm lleol ar gyfer dysgwyr 16 i 18 oed. Erbyn 2012 mae'n rhaid i'r cwricwlwm lleol gynnwys isafswm o 30 o gyrsiau ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 a darpariaeth ôl-16 ac amrywiaeth eang o gyrsiau astudio sy'n academaidd a galwedigaethol eu natur.

77. Mae'n rhaid i'r corff llywodraethu a'r pennaeth mewn ysgolion uwchradd a gynhelir gynorthwyo'r awdurdod lleol i gynllunio'r cwricwla lleol ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 4 a chynorthwyo Gweinidogion Cymru i gynllunio'r cwricwla lleol ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed.

78. Mewn perthynas â'r cwricwlwm lleol ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 4 a myfyrwyr ôl-16, mae'n rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cymaint o gyrsiau astudio â phosibl ar gael yng nghwricwlwm lleol ardal yr awdurdod lleol.

79. Mae'n rhaid i'r pennaeth roi dogfen llwybr dysgu i ddisgyblion a myfyrwyr ysgol, sy'n cofnodi eu llwybr dysgu, gan gynnwys cyrsiau astudio y mae gan y disgybl neu'r myfyriwr hawl i'w dilyn ac unrhyw wasanaethau cymorth i ddysgwyr sydd i'w darparu.

80. Os oes gan ddisgybl neu fyfyriwr (16 i 18 oed) hawl i ddilyn cwrs astudio yng Nghyfnod Allweddol 4 neu ar ôl 16, mae'n rhaid i gorff llywodraethu ysgol y disgybl neu'r myfyriwr sicrhau bod y cwrs ar gael i'r disgybl neu'r myfyriwr.

81. Os yw'r pennaeth yn fodlon, mewn perthynas â phenderfyniadau yn ymwneud â hawliau, bod yna gyfiawnhâd dilys o dan adran 116F o Ddeddf Addysg 2002 neu adran 33G o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, a fewnosodwyd gan adran 9 ac adran 28 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn ôl eu trefn, gall y pennaeth benderfynu nad oes hawl gan ddisgybl ddilyn cwrs astudio yr oedd ef/hi wedi'i dewis.

82. Yn yr un modd, os yw'r pennaeth yn fodlon, mewn perthynas â phenderfyniadau i ddileu hawl, bod yna gyfiawnhâd dilys o dan adran 116H o Ddeddf Addysg 2002 neu adran 33I o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, a fewnosodwyd gan adran 11 ac adran 30 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn ôl eu trefn, gall y pennaeth benderfynu nad oes hawl gan ddisgybl bellach i ddilyn cwrs astudio yr oedd ganddo/ganddi hawl i'w ddilyn (adran 116H o Ddeddf Addysg 2002 a fewnosodwyd gan adran 11 o'r Mesur).

83. Mae dyletswydd ar benaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir i ystyried cyfres o ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ac i gydymffurfio â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru.

Cwynion am y cwricwlwm

84. Mae'n rhaid i bob ALl sefydlu gweithdrefnau, wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth y Cynulliad, ar gyfer ymdrin â chwynion am gamau gweithredu cyrff llywodraethu ac ALlau ar y cwricwlwm (adran 409 o Ddeddf Addysg 1996). Yn achos cwynion yn erbyn cyrff llywodraethu nad ydynt yn ymwneud â'r cwricwlwm, cam ffurfiol cyntaf y weithdrefn yw i'r corff llywodraethu ystyried y gŵyn (adran 29 o Ddeddf Addysg 2002). Os yw'r sawl sy'n cwyno yn dal yn anfodlon wedi hyn gall ef neu hi gyflwyno'r gŵyn i'r ALl. Gall cwynion sy'n ymwneud â phwerau neu swyddogaethau'r ALl yn unig gael eu hystyried gan yr ALl.

Yn gryno:

Mae gan y Corff Llywodraethu a'r Pennaeth:

- ddyletswydd i sicrhau bod y cwricwlwm cenedlaethol yn cael ei weithredu yn eu hysgolion; ac
- mae'n rhaid iddynt gynorthwyo'r awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru i gynllunio'r cwricwlwm lleol ar gyfer disgyblion a myfyrwyr Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16.

Mae'r Corff Llywodraethu:

- mewn ysgolion cynradd yn cytuno ar bolisi ar addysg rhyw a pherthnasoedd ac yn cynnal datganiad ysgrifenedig o'r polisi y cytunwyd arno;
- mewn ysgolion uwchradd, â datganiad ysgrifenedig o'r polisi rhyw a pherthnasoedd i'w ddarparu yn yr ysgol;
- yn mabwysiadu polisi cwricwlwm i'r ysgol;
- yn gweithredu yn unol â gofynion statudol sy'n ymwneud ag addysg grefyddol ac addoli ar y cyd ar gyfer yr ysgol;
- yn gorfod gwrando ar apêl yn erbyn penderfyniad pennaeth i godi neu newid gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer plentyn, ac yn gallu dadwneud y penderfyniad hwnnw;
- yn gorfod cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cymaint o gyrsiau astudio â phosibl ar gael yng nghwricwlwm lleol Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16;
- yn gorfod sicrhau bod cwrs astudio ar gael i ddisgybl neu fyfyriwr os oes ganddynt hawl i'w ddilyn;
- yn gorfod gwrando ar gwynion ffurfiol gan rieni *ac eraill* am gwricwlwm yr ysgol, yn unol â'r gweithdrefnau a sefydlwyd gan yr ALl; ac
- yn gorfod sicrhau bod canlyniadau asesu'r ysgol yn llawn yn cael eu cyflwyno i'r ALl.

Mae'r Pennaeth:

- yn gyfrifol am redeg yr ysgol o ddydd i ddydd;
- yn paratoi polisi cwricwlwm i'r ysgol;
- o bosibl yn penderfynu na fydd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn berthnasol, neu'n berthnasol mewn modd gwahanol, i ddisgybl unigol am gyfnod dros dro;
- yn penderfynu ar y trefniadau ar gyfer addoli ar y cyd, ar ôl ymgynghori â'r corff llywodraethu; ac

- yn gorfod cyflwyno canlyniadau asesiad athrawon ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a 3 at ddibenion casglu data cenedlaethol; ac
- yn gorfod darparu dogfen llwybr dysgu i ddisgyblion neu fyfyrwyr, 14 i 19 oed, sy'n cofnodi eu llwybr dysgu.

Y Gyfraith

Deddf Addysg 1996; Rhannau 1 a 5
Deddf Addysg 2002; Rhan 7
Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008
Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008
Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) Diwygio) 2008
Gorchymyn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru (Diwygiadau Amrywiol) 2008
Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

Rheoliadau

Rheoliadau Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Eithriadau Dros Dro i Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 1999
Rheoliadau Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Eithriadau yng Nghyfnod Allweddol 4) 2004
Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000
Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004
OS 2004/1025 fel y'u diwygiwyd
Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2004/1026/contents/made
Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2007
Y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chyfle cyfartal – gweler Pennod 9, sef Cyfle Cyfartal a Llywodraethwyr Ysgol

Gorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol

Mae dogfennau statudol cysylltiedig yn amlinellu'r cwricwlwm ar gyfer pob pwnc; mae'r rhain ar gael ar wefan y Cynulliad www.cymru.gov.uk/ addysgasgiliau, fel y gwelir isod:

Saesneg yn y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru
Cymraeg yn y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru
Ieithoedd tramor modern yn y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru
Mathemateg yn y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru
Gwyddoniaeth yn y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru
Dylunio a thechnoleg yn y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru
Hanes yn y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru
Daearyddiaeth yn y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru
Celf a dylunio yn y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru
Cerddoriaeth yn y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru
Addysg gorfforol yn y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru

Gorchmynion Asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004
Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005
Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2002

Y Cyfnod Sylfaen

Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2008

Chwarae/Dysgu Gweithredol:Trosolwg ar gyfer plant 3 i 7 oed
Arsylwi ar Blant
Addysgeg Dysgu ac Addysgu
Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
Datblygiad Mathemategol
Datblygu'r Gymraeg
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
Datblygiad Corfforol
Datblygiad Creadigol

Canllawiau ar y Cwricwlwm

Manteisio i'r Eithaf ar Ddysgu – Gweithredu'r Cwricwlwm Diwygiedig
Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer Dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru
Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru
Fframwaith Sgiliau ar gyfer Dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru
Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith: Fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru
Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru
Sicrhau Cysondeb mewn Asesiad Athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3
Gwrando ar Ddysgwyr
Tablau Canlyniadau Asesiad y Cwricwlwm Cenedlaethol ac Arholiadau Cyhoeddus
Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer dysgu ôl -16
Cwricwlwm i bob dysgwyr
Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009
Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: Canllawiau ar y Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4
Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009: Canllawiau ar y Cwricwlwm Lleol i Fyfyrwyr 16 i 18 oed

Cyhoeddiadau Eraill

Sut mae'ch Plentyn yn Dod Ymlaen yn yr Ysgol Gynradd? Arweiniad i Rieni ar y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008
Sut mae'ch Plentyn yn Dod Ymlaen yn yr Ysgol Uwchradd? Arweiniad i Rieni ar y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008
Trefniadau asesu statudol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2010/11, Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3
Manteisio i'r eithaf as asesu 7-14
Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009: Canllawiau ar y Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr a'r Ddogfen Llwybr Dysgu